# Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

**2016 dccc 2**

## RHAN 6

GWEITHWYR GOFAL CYMDEITHASOL: ADDASRWYDD I YMARFER

## PENNOD 4

GORCHMYNION INTERIM AC ADOLYGU GORCHMYNION INTERIM

### 145 Apelau yn erbyn gorchmynion interim

(1) Pan fo panel wedi gwneud gorchymyn interim o dan adran 144 mewn cysylltiad â pherson cofrestredig, caiff y person hwnnw apelio yn erbyn y gorchymyn i'r tribiwnlys.

(2) Rhaid i apêl gael ei gwneud cyn diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir hysbysiad o'r penderfyniad o dan adran 144(7).

(3) Ond caiff y tribiwnlys ganiatáu i apêl gael ei gwneud iddo ar ôl diwedd y cyfnod a grybwyllir yn is-adran (2) os yw wedi ei fodloni bod rheswm da dros y methiant i apelio cyn diwedd y cyfnod hwnnw (a thros unrhyw oedi cyn gwneud cais am ganiatâd i apelio ar ôl yr amser priodol).

(4) Ar apêl, caiff y tribiwnlys—

- (a) dirymu'r gorchymyn interim,
- (b) yn achos gorchymyn cofrestru amodol interim, dirymu neu amrywio unrhyw amod,
- (c) rhoi gorchymyn cofrestru amodol interim yn lle gorchymyn atal dros dro interim,
- (d) rhoi gorchymyn atal dros dro interim yn lle gorchymyn cofrestru amodol interim,

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(e) amrywio'r cyfnod y mae'r gorchymyn interim i gael effaith ar ei gyfer,

(f) anfon yr achos yn ôl i GCC er mwyn iddo ei waredu yn unol â chyfarwyddydau'r tribiwnlys, neu

(g) peidio â gwneud unrhyw newid i'r gorchymyn interim.